## Y BEIBL A'R GOLOMEN



Pan adnewyddwyd blaen Capel Seilo ar gyfer ei ganmlwyddiant yn 1964, gosodwyd tŵr bychan yn cysgodi colomen a Beibl ar do'r adeilad.

Robert Lambert Gapper oedd cerflunydd y gwrthrychau hyn.

Yr oedd Robert Lambert Gapper yn addysgwr, ond yr oedd hefyd yn gynllunydd ac yn gerflunydd, yn gweithio mewn llechfaen a gwenithfaen Eryri, ei ardal enedigol, yn ogystal ag efydd a phren. Comisiynau oedd y mwyafrif o'i waith ac roeddynt yn dueddol o fod yn ddarnau cyhoeddus, megis cofebion a cherrig beddau, penddelwau a dodrefn ac addurniadau eglwysig; fe hefyd oedd yn gyfrifol am gynllunio bathodyn yr Urdd. Roedd yn Bennaeth Adran Gelf Prifysgol Aberystwyth o 1939 nes ei ymddeoliad yn 1962.

Cafodd Seilo ei ddymchwel yn yr 1990au cynnar, ond tynnwyd y golomen a'r Beibl i lawr yn ofalus a'u cadw'n saff. Er gwaethaf hyn, fe aeth y golomen ar goll.

Ar ôl agor y Morlan yn Ebrill 2005, gosodwyd y Beibl yn yr ardd gyda cholomen 'dros dro' yn hongian uwch ei ben, yn y gobaith y byddai'r golomen wreiddiol yn dychwelyd un diwrnod. Mae'r diwrnod hwnnw bellach wedi cyrraedd a, diolch i waith arbennig Laurie Wright, aelod o Gapel y Morfa, mae'r golomen wreiddiol yn ôl yn ei lle priodol uwchben Beibl Seilo ar safle'r hen gapel.

Nid oedd ei gosod hi yno yn dasg rhwydd o gwbl ac mae Morlan yn ddiolchgar iawn i Arad Goch am eu cymorth yn cludo'r golomen yn ôl i Morlan, ac i Alun Morris a Raymond Walters am helpu gyda'r gwaith hongian. Rhaid diolch yn arbennig i Laurie Wright am ei ymroddiad a'i ymdrech i sicrhau bod y golomen yn dychwelyd yn saff, ac am ei waith caled yn adeiladu'r fframwaith sy'n dal y golomen a'r Beibl.